



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Gweithgareddau
Mathemateg
i'r Teulu
Blwyddyn 6



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk
familymathstoolkit.org.uk

 **National
Numeracy**
Getting on with numbers



Pecyn Mathemateg Teulu

1

2

3

4



Rhagarweiniad

Nod yr adnodd teuluol hwn, sydd wedi'i brofi i fod yn gwella hyder plant a rhieni mewn mathemateg, yw hyrwyddo mwynhad o fathemateg drwy drafod a gweithio gyda'n gilydd ar fathemateg bob dydd.

Mae'r pecyn hwn gan National Numeracy yn cynnwys gweithgareddau byr, hwyliog 'bywyd go iawn' i deuluoedd eu gwneud â'u plant, gyda ffocws cryf ar ddatrys problemau a rhesymu.

Mae'n cynnwys 36 o weithgareddau. Yn y pecyn hwn, maen nhw wedi eu trefnu i fynd yn raddol anoddach – ond gellir eu dewis i gyd-fynd â'r maes cwricwlwm y mae eich plant yn gweithio arno.

Nid yw'r taflenni gweithgaredd unigol yn dangos grŵp blwyddyn nac oed, dim ond codau lliw fel y gallwch ddweud y gwahaniaeth. Dylid nodi bod y lefel yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyfartalog ar gyfer y grŵp blwyddyn – gallai'r plant fod yn gweithio ar lefel is neu uwch, felly defnyddiwch weithgareddau o grwpiau blwyddyn eraill os oes angen.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Trosolwg yn awgrymu sut i rannu'r gweithgareddau yn ôl tymor ysgol a phwnc rhifedd.
- 36 o weithgareddau, yn y drefn a roddir yn y trosolwg.
- 3 taflen atebion, un i bob tymor (cofiwch fod llawer o'r gweithgareddau wedi eu dylunio i fod yn benagored felly rhoddir atebion ond i weithgareddau sy'n gofyn am ateb).

Ar gyfer ysgolion

Argymhellwn y dull canlynol i ysgolion sy'n defnyddio'r gweithgareddau:

- Dull dosbarth cyfan neu hyd yn oed ddull ysgol gyfan.
- Os yw'r plant yn gweithio'n uwch neu'n is na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoed, dewiswch weithgaredd o grŵp blwyddyn arall.
- Cynnal gweithdy i fodelu trafodaethau'r gweithgareddau i rieni llai hyderus.
- Pwysleisio y gall unrhyw aelod o'r teulu weithio gyda'r plentyn ar y gweithgaredd.
- Os nad oes oedolion yn helpu allan yn y cartref, awgrymwn ddod o hyd i ffrind ysgol hŷn i helpu mewn clwb ar ôl ysgol neu gyn-ysgol.
- Nid oes raid i'r rhiant / gofalwr fod ag unrhyw wybodaeth arbennig am fathemateg neu offer ysgol.
- Annog y plant i fod yn greadigol: tynnu lluniau neu ffotograffau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau.
- Annog yr oedolyn a'r plentyn i ddefnyddio'r blwch sylwadau i fyfyrion a'ch helpu chi i ddeall beth y maen nhw'n ei feddwl o bob gweithgaredd.
- Arddangos gweithgareddau a gwblhawyd fel bo'r plant a'r teuluoedd yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd nad un ffordd yn unig sydd o ddatrys problem ond sawl ffordd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669



Pecyn Mathemateg Teulu

1

2

3

4



Ar gyfer rhieni a gofalmwyr

Sut bynnag y teimlwch am fathemateg, gallwch wneud gwahaniaeth mawr i sut y mae plant yn dysgu rhifedd.

Mae'r dystiolaeth i gyd yn dangos bod siarad am fathemateg pob dydd yn magu hyder plant mewn mathemateg. Dyma rai cwestiynau y gallwch ofyn i'ch gilydd wrth wneud y gweithgareddau:

- Beth sydd angen ei wneud?
- Pa wybodaeth sydd gennym ni? Beth sydd angen ei ddarganfod?
- Fyddai offer yn helpu?
- Beth sylwch chi arno pan...?
- Beth am ddyfalu'r ateb i weld ydy o'n iawn?
- Beth allwn ei wneud os awn yn styc?
- Os byddwn yn gwneud hyn eto, allen ni wneud rhywbeth yn wahanol?

Gallwch addasu'r gweithgareddau i ddiddordebau eich teulu a defnyddio unrhyw eitemau sydd wrth law, yn y cartref neu'r tu allan iddo.

Gallech dynnu lluniau neu ffotograffau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau – mae i fyny i chi!

Defnyddiwch y sylwadau i fyfyrio ar eich trafodaethau a meddyliau wrth wneud y gweithgaredd gyda'ch gilydd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Trosolwg a chysylltiadau i'r Cwricwlwm Bl6

Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Hydref	Rhif (cyfrifiadau)	Pos pyramid lluosï	Lluosï rhifau sawl digid hyd at 4 digid, gweithio'n systematig i ddod o hyd i'r holl bosibiliadau. Defnyddio cyfrifiadau pen i ddatrys problemau; gweithio'n systematig.	Gweithio'n systematig.
		Cylchoedd jyglo	Lluosï / rhannu rhifau sawl digid, gan gynnwys degolion yng nghyd-destun arian, i ddatrys problemau.	Trosi arian.
		Faint?		
	Rhif (FDP)	Chwaraeon - weithiau, bob tro, byth	Rhesymu a chyfiawnhau defnyddio gwahanol gyfrifiadau, gan gynnwys ffractsiynau a chanrannau. Problemau'n golygu cyfrifo canrannau a ffractsiynau. Ad-alw a defnyddio ffractsiynau syml, degolion a chanrannau.	Cyfannu'n fanwl gywir.
		Ffrwydradau tân gwyllt		
		Gêm dominos FDP	Defnyddio fformiwlâu syml, mynegi problemau rhif(au) coll mewn dull algebra.	Adnabod gwerth pob digid mewn rhifau hyd at 3 le degol.
	Algebra	Hafaliadau cytbwys o ffrwythau	Adnabod, disgrifio a chreu siapiau 3D syml, gan gynnwys gwneud netiau.	
	Geometreg	Fflatio bocs	Mesur a chymharu hyd(oedd). Dechrau meddwl am nodweddion cylch.	
		Olwynion	Trosi rhwng milltiroedd a chilometrau.	
	Mesur	Milltir o ffa pob Taith drwy'r anialwch	Datrys problemau drwy gyfrifo a throsi unedau mesur màs a chydffaint.	

Trosolwg a chysylltiadau i'r Cwricwlwm Bl6

Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Gwanwyn	Rhif (cyfrifiadau)	Cynigion archfarchnad.	Lluosi a rhannu'n defnyddio cyfanrifau a hyd at 2 le degol yng nghyd-destun arian.	
	Rhif (FDP)	Gemâu Olympaidd Dewiniaid	Datrys problemau drwy gyfrifo canrannau, ffracsiynau a chymhareb.	
		Dillad i'r dyn talaf.	Datrys problemau'n ymwneud â siapiau tebyg gan ddod o hyd i'r ffactor graddfa.	
		Tatws pôb	Datrys problemau'n ymwneud â chanrannau a defnyddio canrannau er mwyn cymharu.	
	Algebra	Dylunio Arch-arwr	Datrys problemau mesuriadau a graddfeydd syml yn defnyddio ffracsiynau a chanrannau.	Amcangyfrif
		Anrhegion dan y goeden	Dod o hyd i barau o rifau sy'n bodloni hafaliad gyda dau rif anhysbys a rhestru posibiliadau dau newidyn.	
	Mesur	Pluen neu eliffant	Datrys problemau drwy gyfrifo a throsi unedau mesur (hyd at dri lle degol lle bo'n briodol).	Cyfannu degolion; amcangyfrif
		Ewinedd hiraf y byd	Datrys problemau drwy gyfrifo a throsi unedau mesur, defnyddio nodiant degol, trosi mesuriadau hyd.	
	Ystadegau	Sgipio'n gyflym Grawnfwyd brecwast	Cyfrifo'r cymedrig. Dehongli a chreu siartiau cylch i ddatrys problemau.	Amcangyfrif

Trosolwg a chysylltiadau i'r Cwricwlwm Bl6



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Haf	Rhifau (gwerth lle)	Bisgedi Eid	Datrys problemau sy'n gofyn cyfannu atebion yn fanwl gywir.	Canrannau, mesuriadau.
	Algebra	Mae algebra'n hwyl	Cynhyrchu a mynegi problemau rhif(au) coll mewn dull algebra; rhestru posibiliadau cyfuniadau o ddau newidyn.	
	Mesur	Y gacen fwyaf erioed	Defnyddio a throsi rhwng unedau mesur hyd a chyfaint yn defnyddio nodiant degol; cyfrifo, amcangyfrif a chymharu cyfaint ciwboidau'n defnyddio unedau safonol, gyda cm^3 a m^3 .	
	Geometreg	Pwysau eirth	Datrys problemau'n defnyddio unedau mesur (màs) a nodiant degol, hyd at dri lle degol.	
		Map trysor Mynd mewn cylchoedd	Disgrifio safleoedd ar y grid cyfesurynnau llawn. Dangos ac enwi rhannau o gylchoedd gan gynnwys radiws, diamedr a chylchedd.	Adnabod lle y gellir defnyddio fformiwla i gyfrifo arwynebedd.
		Cartref breuddwyd Rhan 1	Cyfrifo a chymharu arwynebedd hirsgwariau (gan gynnwys sgwariau) a defnyddio unedau safonol cm^3 neu m^3 , amcangyfrif arwynebedd siapiau afreolaidd.	
		Cartref breuddwyd Rhan 2	Cyfrifo a chymharu arwynebedd hirsgwariau (yn cynnwys sgwariau) a defnyddio unedau safonol cm^3 a m^3 , amcangyfrif arwynebedd siapiau afreolaidd yn defnyddio dimensiwn ac onglau.	
		Peli golff	Mesur a chyfrifo perimedr siapiau mewn centimetrau.	
	Ystadegau	Beth sy'n digwydd?	Dehongli a chreu graffiau llinell a defnyddio'r rhain i ddatrys problemau.	


Pos pyramid llusi




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Yn defnyddio digidau sengl 1-4, rhowch nhw ym mhob un o'r 4 bocs mewn unrhyw drefn.

Lluoswch ddau focs cyfagos i gwblhau'r un sy'n union uwchben. e.e.



Pa drefniant o ddigidau rhes waelod sy'n rhoi cyfanswm o 96 yn y bocs top?



Allwch chi feddwl am fwy nag un ffordd o gyrraedd y cyfanswm hwn?

Her: Pa gyfansymiau eraill allwch chi eu cael drwy ad-drefnu'r rhes waelod?

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Lluosi rhifau sawl digid hyd at 4 digid, gweithio'n systematig i ddod o hyd i'r holl bosibiliadau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Cylchoedd jyglo




**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mae gan glown syrcas set o bum cylch jyglo o wahanol liwiau. Cyn dechrau ei act, mae'n eu gosod fel eu bod yn gorgyffwrdd.

Mae hyn yn creu 9 ardal wahanol yn y cylchoedd.

Allwch chi roi'r holl rifau rhwng 2-10 ym mhob un o'r ardaloedd hyn fel bod pob cylch cyflawn yn adio i roi eilrif?

Mae mwy nag un ateb felly heriwch eich teulu i gyd!



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Defnyddio cyfrifiadau pen i ddatrys problemau; gweithio'n systematig.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Faint?



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Os teithiwn i wledydd eraill, mae angen i ni newid ein punnoedd am arian y wlad honno – gelwir hyn yn ‘cyfnewid’. Mae’r cyfraddau cyfnewid yn amrywio ond mae’r tabl hwn yn dangos y cyfraddau am un diwrnod.



Cyfraddau cyfnewid

Y DU	£1 (punnoedd DU)	UDA	\$1.46 (doleri UDA)
Y DU	£1	Ewros	€1.32

Mae byrgyr yn costio £4.00 yn Llundain. Byddai hyn yn \$5.84 mewn doleri UDA.

Mae pítsa’n costio £3.00 yng Nghaerdydd. Faint fyddai ei gostio yn Ffrainc mewn ewros?

Mae pwn o fefus yn costio £2.50 yng Nghaeredin. Faint fydddech chi’n ei dalu yn Sbaen mewn Ewros am yr un peth?

Mae tocyn diwrnod i Disneyland Paris yn costio 79 ewro. Faint o bunnoedd fyddai angen i chi ei gynilo i dalu am 5 tocyn?

Allwch chi feddwl am 3 pheth arall y gallech fod eisïau eu prynu yn y DU a chyfrifo faint o arian y byddai angen ei gyfnewid i’w prynu yn UDA ac yn Ffrainc?

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Lluosi a rhannu rhifau sawl digid, gan gynnwys degolion yng nghyd-destun arian, i ddatrys problemau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru’r elusen: 1145669

Chwaraeon – weithiau, bob tro, byth



Darllenwch y datganiadau hyn a'u trafod gyda'ch teulu.

Lliwiwch y rhai y penderfynwch eu bod 'weithiau' yn felyn, os penderfynwch eu bod 'bob tro' lliwiwch nhw'n wyrdd, a'r rhai 'byth' yn goch.



Mae ennill 70/100 yn well nag ennill 3/5 o'r gemau	Mae'n well gwneud chwaraeon pan fydd y tywydd yn gynnes
Dylai'r tîm cartref gael 75% o'r tocynnau	Byddwch yn gwella drwy ymarfer
Gallai dros 50,000 o bobl wylïo gêm bêl-droed broffesiynol	Mae angen dwywaith / dwbl nifer y bôls pêl-droed na chrysau ar dîm pêl-droed
Mae tocynnau 'hanner pris' yr un fath â chynigion 'prynu un, cael un am ddim'	Mae dyfarnwr pêl-droed yn gallu ychwanegu 10% o amser ar ddiwedd gêm
Mae pobl yn chwarae'n dda ar ôl cael noson dda o gwsg	Mae mwy o bobl yn gallu bod ar un ochr na'r llall mewn gêm
Mae 22 o chwaraewyr ar gae pêl-droed	Mae 2 gan o pepsi am £1.40 yn werth yr un fath â 3 can am £2.10
Mae cilogram (kg) o sglodion yn pwyso mwy na kg o greision	Mae pryd o fwyd mawr cyn chwarae gêm yn gwneud lles i chi
Mae 4 tocyn am £5.50 yr un yn costio mwy na 3 tocyn am £6.50 yr un	Mae 14 rhes o 8 sêd yr un fath â 15 rhes o 7 sêd

Ydych chi gyd yn cytuno? Os na allwch gytuno, lliwiwch y datganiadau hynny'n las.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Rhesymu a chyfiawnhau'n defnyddio gwahanol gyfrifiadau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Ffrwydradau tân gwyllt



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae gan siop gynigion arbennig ar dân gwyllt “Prisiau ffrwydrol!”

Mae gan roced £10 $\frac{3}{5}$ i ffwrdd – beth yw'r pris newydd?
Roedd paced o sbarcllys yn £20 a rŵan gyda 15% i ffwrdd – faint ydy o rŵan?
Pe baech yn cadw siop, meddyliwch am gynigion arbennig ar gyfer tân gwyllt
(cofiwch na allwch eu **rhoi am ddim**, rhaid i chi wneud rhywfaint o arian).

Tân gwyllt	Pris	Cynnig arbennig	Pris newydd
	£4.25		
	£8.40		
	£12.50		
	£15.60		
	£3.75		
	£24.00		

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Ewch ati i greu eich tân gwyllt a'ch prisiau eich hun yn y blychau olaf. Defnyddiwch ffracsiynau, canrannau, a chynigion hanner pris a 'prynu un, cael un am ddim'.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau drwy gyfrifo canrannau a ffracsiynau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Ffracsiynau, degolion, canrannau gyda dominos



Pecyn
Mathemateg
Teulu

I chwarae'r gêm hon mae angen i chi dorri allan yr holl 'ddominos' a'u cymysgu.





Rhannwch 5 'domino' yr un a dewiswch rywun i ddechrau'r gêm. Mae'r un sy'n dechrau'n rhoi un domino wyneb i fyny. Gall unrhyw un gyda chwestiwn neu ateb sy'n paru gyda'r naill ben neu'r llall roi eu domino nhw wrth ei ymyl:



Mae 15% o 70 yn 10.5 felly maen nhw'n mynd gyda'i gilydd.

Os na all chwaraewr 'fynd', rhaid iddyn nhw gael domino arall. Y chwaraewr cyntaf i gael gwared ar bob domino sy'n ennill.

Gair o gyngor: Mae'r gêm yn well gyda 3+ o chwaraewyr. Os oes 1 neu 2 yn chwarae, rhannwch fwy o gardiau i ddechrau.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

16	$0.4 \times$ 150
----	----------------------------

60	$55\% \circ$ 100
----	----------------------------

55	$\frac{3}{8} \circ$ 88
----	----------------------------------

33	$0.2 \times$ 33
----	---------------------------

6.6	$20\% \circ$ 250
-----	----------------------------

50	$\frac{2}{3} \circ$ 72
----	----------------------------------

48	$\frac{2}{5} \circ$ 225
----	-----------------------------------

90	$\frac{3}{5} \circ$ 20
----	----------------------------------

12	$0.5 \times$ 10
----	---------------------------

5	$20\% \circ$ 20
---	---------------------------

3	$\frac{1}{4} \circ$ 24
---	----------------------------------

6	$0.1 \times$ 20
---	---------------------------

2	$75\% \circ$ 16
---	---------------------------

12	$\frac{1}{5} \circ$ 35
----	----------------------------------

7	$0.75 \times$ 100
---	-----------------------------

75	$30\% \circ$ 30
----	---------------------------

9	$\frac{1}{3} \circ$ 90
---	----------------------------------

30	$0.2 \times$ 50
----	---------------------------

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

10	20% o 24
----	--------------------

4.8	$\frac{2}{5}$ o 45
-----	------------------------------

18	0.9 x 90
----	--------------------

81	20% o 75
----	--------------------

15	$\frac{3}{4}$ o 32
----	------------------------------

24	$\frac{1}{3}$ o 57
----	------------------------------

19	40% o 72
----	--------------------

28.8	$\frac{1}{8}$ o 88
------	------------------------------

Sylwadau teulu:

--

Sylwadau plentyn:

--



Cysylltiad Cwricwlwm:

Ad-alw a defnyddio
ffracsiynau syml,
degolion a
chanrannau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Hafaliadau cytbwys o ffrwythau



Pecyn
Mathemateg
Teulu




= 100 g




= 200 g

$(3 \times 100) = 200 + 100$
Hafaliad cytbwys



Allwch chi gyfrifo hafaliadau cytbwys y ffrwythau hyn?


Bydd angen i chi ddarganfod gwerth afal ac yna'r ffrwythau coll a ddangosir gan 'x'.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669



Her: Allwch chi greu graddfeydd cytbwys eraill gyda ffrwythau wedi eu mesur mewn gramau? Gofynnwch i weddill eich teulu eu cyfrifo.

Sylwch: Dyma'r ddau hafaliad diwethaf: hanner afal yn gytbwys â hanner gellygen ac x. Banana cyfan a hanner banana yn gytbwys â hanner gellygen, hanner afal ac x

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Defnyddio fformiwlâu syml, mynegi problemau rhif(au) coll mewn dull algebra.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Fflatio bocs



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Dowch o hyd i focs cardbord
(fel bocs grawnfwyd) a'i ddatod
fel bod gennych focs sy'n siâp
net fflat.**


Pa siâp sydd gennych?

Allwch chi ddod o hyd i diwb cardbord
(fel rholyn o bapur cegin)? Pa siâp 3D
ydy o? Os torrwch o ar ei hyd, pa siâp
y meddyliwch fydd gennych?

Rŵan torrwch o – ydych chi'n synnu?

Allwch chi ddod o hyd i siapiau
anghyffredin a dangos eu siâp net?

Allwch chi ddylunio net fydd yn creu
siâp 3D?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Adnabod, disgrifio a
chreu siapiau 3D syml,
gan gynnwys gwneud
netiau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Faint o bethau gydag olwynion allwch chi ddod o hyd iddynt? Meddyliwch am geir, bysus, teganau...

Ydy'r olwynion i gyd yr un siâp? Ydy'r olwynion i gyd yr un faint? Ydyn nhw'n llydan neu'n gul?

Os mesurwn ar draws canol y cylch, y diamedr ydy'r enw ar hwn. Y cylchedd yw'r enw ar yr holl ffordd o gwmpas yr ymyl allanol.

Faint o wahanol ddiamedrau allwch chi fesur? Ysgrifennwch ba olwyn oedd yn perthyn i beth a'i ddiamedr.

Allwch chi feddwl am rywbeth gydag olwynion o wahanol faint?

Gair o gyngor: Os nad oes gennych dâp mesur, defnyddiwch gortyn a phren mesur.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Mesur a chymharu hyd(oedd). Dechrau meddwl am nodweddion cylch.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Milltir o ffa pob



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mae can bychan o ffa pob yn tua 10cm o uchder.

Pe byddech yn rhoi nifer o ganiau pen wrth ben, faint o ganiau fyddai eu hangen i wneud 1 filltir?

Allwch chi ddod o hyd i rywbeth arall yn y tŷ y byddai'n hwyl creu 'neidr' milltir o hyd gyda nhw?

Faint o'r pethau hyn fyddai ei angen i wneud milltir?

Gair o gyngor:

1 can = 10cm felly 10 can = 1m ac yn y blaen...
1 filltir = 1.6km



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Trosi rhwng milltiroedd a chilometrau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Taith anialwch



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**


Dychmygwch eich bod yn swyddog yn y fyddin ac yn gorfod teithio ar draws anialwch ar neges gudd.

Byddwch yn teithio ar draws yr anialwch am ddau ddiwrnod a rhaid i chi gludo popeth ar eich cefn. Mae sachau cefn yn cael eu mesur mewn litrau. Mae sach gefn 15 litr yr un fath / hafal i 15 cilogram.

Rhaid i chi ddewis beth i fynd gyda chi – cofiwch fod angen digon i'w yfed yn yr anialwch felly bydd eich pethau'n gymysgedd o hylif (litrau neu fililitrau) a bwyd neu ddillad (cilogramau neu gramau) neu unrhyw beth arall a allai fod ei angen arnoch (fel papur toiled neu gyfarpar).

Mesurwch bethau o gwmpas eich cartref i benderfynu beth i'w ddewis a gwnewch restr. Cofiwch na allwch fynd dros 15 litr neu 15 cilogram.

Mae swyddogion y fyddin yn aml yn cludo sachau cefn 65 litr – allech chi godi hyn neu ei gario'n bell?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau drwy gyfrifo a throsi unedau mesur mäs a chyfaint; adnabod gwerth pob digid mewn rhifau hyd at dri lle degol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Cynigion archfarchnad



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae gan archfarchnad y cynigion arbennig hyn:

- Roedd paced o dabledi fitaminau (90) ar werth am '3 am bris 2' gyda phob paced yn costio £1.80
- Roedd paced o'r un tabledi fitaminau (30) hefyd yn '3 am bris 2' gyda phob paced yn dechrau ar 70c.

Pa un yw'r cynnig gorau?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Roedd tuniau o gawl yn 59c yr un neu 'prynu un cael un am ddim'.

Gwerthwyd yr un tuniau fel pecyn o 4 am £1.20

Beth yw'r ffordd rataf o brynu'r cawl hwn?

Gwerthwyd bisgedi mewn gwahanol ffyrdd –

- £2.48 am baced cymysg (62 o fisgedi)
- Roedd un paced o fisgedi (20) yn 82c
- Neu roedd y pacedi a oedd yn rhan o'r cynnig '3 am bris 2' yn costio £1.35 yr un (10 o fisgedi mewn paced)
- Pacedi o 15 o fisgedi am 90c oedd yn rhan o'r cynnig 'Prynu un, cael un am ddim'

Her: Ewch i'ch archfarchnad leol i chwilio am gynigion tebyg. Ydyn nhw'n gynigion da? Pam?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Lluosi a rhannu'n defnyddio cyfanrifau a hyd at 2 le degol yng nghyd-destun arian.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Gemâu Olympaidd Dewiniaid



Pecyn
Mathemateg
Teulu

**Mae'r byd dewiniaid yn cynnal
Gemâu Olympaidd eu hunain.
Dyma rai cliwiau i'r campau:**

- Cymhareb y rasys nofio i ornestau dewiniaid ydy 2:1
- Mae $\frac{1}{4}$ o'r holl gampau'n rasys nofio
- Mae hanner y campau'n cynnwys rhedeg
- Mae'r campau sydd ddim yn nofio, rhedeg, rasys ysgub neu'n ornestau dewiniaid yn frwydrau dreigiau.
- Mae 120 o gampau i gyd
- Mae mwy o ornestau dewiniaid na rasys ysgub
- Mae 66% o gystadleuwyr y brwydrau dreigiau'n fechgyn
- Mae 10% o'r campau'n rasys ysgub

Cyfrifwch pa rai yw'r campau a faint o bob un sy'n cael eu cynnal?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Ar un diwrnod, mae 20% o'r rasys nofio wedi cael eu canslo. Gallwch roi ras o'ch dewis chi yn eu lle – beth fyddai honno? Pa ffracsiwn o gyfanswm y digwyddiadau sy'n rhai nofio nawr?

Os yw $\frac{1}{3}$ o'r bobl sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth ysgubau yn ferched, a bod 24 o ferched, faint o'r cystadleuwyr sy'n fechgyn?

Gair o gyngor: Dechreuwch gyda ffaith hysbys – cyfanswm y campau, yna rhestrwch y campau.

Her: Allwch chi ofyn cwestiynau eraill gyda'r wybodaeth yma?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:

Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau drwy gyfrifo canrannau, ffracsiynau a chymhareb.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Paratoi tatws pob



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**


Ar gyfer cinio i'w deulu, mae Kasan yn defnyddio 60% can o diwna ar bob taten bob.

Mae ganddo 4 can o diwna. Faint o datws allai roi tiwna arnynt?

Mae hefyd yn defnyddio tybiau o gaws wedi'i gratio. Mae'n defnyddio 15% o dwb mawr o gaws ar bob taten ac mae ganddo 3 twb o gaws – faint o datws allai roi caws arnynt?

Gair o gyngor: Tynnwch lun y caniau a'r tybiau a'u rhannu i'r canrannau (neu eu trosi'n ffracsiynau) sydd eu hangen.

Her: Dewiswch gynhwysyn arall – faint fydddech chi'n ei roi ar bob taten?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau'n ymwneud â chanrannau a defnyddio canrannau er mwyn cymharu.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Dylunio Arch-arwr



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Ffeithiau am fodau dynol:

- Mae hyd breichiau ar led yn gymhareb o 1:1 i daldra person
- Mae eu pennau'n gymhareb o tua 1:6 neu 1:7 i'w taldra
- Mae eu dwylo yn tua 25% o hyd eu breichiau
- Mae cymhareb hyd coes i hyd corff yn newid wrth i ni dyfu fyny

Allwch chi wirio hyn arnoch chi eich hun a'ch teulu?

Mae hyn yn hen ddywediad – ydy o'n wir am eich teulu chi?

- *Unwaith o gylch y canol, dwywaith o gylch y gwddw*
- *Unwaith o gylch y gwddw, dwywaith o gylch yr arddwrn*

Dyluniwch Arch-arwr yn defnyddio'r wybodaeth uchod. Gallai fod yn fwy na'r person arferol – neu'n llai wrth gwrs – ond rhaid cadw at yr un cyfrannau corfforol. Rhowch enw i'ch Arch-arwr.

Gair o gyngor: Torrwch allan stribedi o bapur neu gortyn i bob rhan o'r corff; hyd breichiau ar led yw o flaen bys un llaw i flaen bys y llall gyda'ch breichiau allan mor llydan â phosib; mesurwch y pen mewn llinell syth o'r corun i dan yr ên.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau mesuriadau a graddfeydd syml yn defnyddio ffracsiynau a chanrannau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Pos anrhegion dan y goeden




**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mae 5 o anrhegion dan y goeden o wahanol siapiau. Mae pob siâp yn costio pris gwahanol.

1. Cost y ciwb a'r sffêr gyda'i gilydd ydy = £29
2. Cost y prism a'r sffêr ydy = £25
3. Cost y sffêr a'r silindr ydy = £21
4. Cost y silindr a'r ciwboid ydy = £27
5. Cost y ciwboid a'r ciwb ydy = £35

Allwch chi gyfrifo cyfanswm cost y 5 anrheg o'r cliwiau hyn? A oes mwy nag un ateb posib?

Her: Allwch chi ychwanegu chweched anrheg gyda phris, a dyfeisio cwestiynau i'ch teulu eu datrys?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Dod o hyd i barau o rifau sy'n bodloni hafaliad gyda dau rif anhysbys a rhestru posibiliadau dau newidyn.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Pluen neu eliffant



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Yn y tabl hwn mae'r pwysau (màs) mewn trefn o'r trymaf i'r ysgafnaf. Ond mae'r gwrthrychau i gyd wedi cael eu cymysgu.



Pwysau	Gwrthrych
10,000 kg	Amlen
1,000 kg	Blewyn
100 kg	Lori fawr hir
10 kg	Sachaid o sment
1 kg	Bag o siwgr
0.1 kg	Eliffant
0.01 kg	Un o glychau cloc Big Ben
0.001 kg	Pluen
0.0001 kg	Paced o sbeis

Pa wrthrych ddylai gyfateb i bob pwysau yn eich barn chi?

Ar ôl i chi eu datrys, mae dau flwch wedi cael eu gadael yn wag er mwyn i chi ddod o hyd i rywbeth gartref a fyddai'n ffitio i mewn i'r drefn pwysau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Gair o gyngor: Bydd rhai o'r pwysau hyn yn amcangyfrif. Dechreuwch gyda bag 1kg o siwgr fel man cychwyn. Gallwch fesur eitemau sy'n ysgafnach na 1kg mewn gramau a'u trosi. $1\text{ kg} = 1000\text{g}$

Efallai na fyddwch yn cytuno â'r drefn oherwydd bydd rhai pethau'n anhysbys - y drafodaeth sy'n bwysig i benderfynu ar amcangyfrifon rhesymol.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau drwy gyfrifo a throsi unedau mesur (hyd at dri lle degol lle bo'n briodol - mae'r gweithgaredd yma'n defnyddio 4 lle degol).

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Ewinedd hiraf y byd



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Roedd dyn yn India wedi cael ei hun yn y Guinness Book of Records am dyfu ei ewinedd, ar un llaw, i 30 troedfedd (9.1m).

I ddechrau, roedd pob ewin yn tyfu 0.1 mililitr y dydd. Amcangyfrifwch ba mor hir fyddai pob ewin ar ôl blwyddyn?

Rŵan cyfrifwch yn gywir – oeddech chi'n agos?

Tua faint y byddai'n ei gymryd i'w ewin dyfu i 30 troedfedd (9.1 metr)?

Pa mor hir ydych chi'n gadael i'ch ewinedd dyfu cyn eu torri?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau drwy gyfrifo unedau mesur, defnyddio nodiant degol, trosi mesuriadau hyd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Sgipio'n gyflym



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Faint o sgipiau y credwch allwch chi ei wneud mewn 15 eiliad? Ysgrifennwch eich amcangyfrif.

Gofynnwch i'ch teulu amcangyfrif faint allen nhw ei wneud. Ysgrifennwch nhw.

Dowch o hyd i amserydd neu wats ac amseru pob person – pa mor agos oedd eich amcangyfrifon?


Beth oedd cymedrig (cyfartalog) yr amcangyfrifon?

Beth oedd cymedrig yr union nifer o sgipiau?

Sut allech chi gofnodi hyn? Beth ddysgoch chi?

Allech chi wneud pedair gwaith yn fwy na hyn mewn munud? Fyddech chi'n arafu wrth flino?

Gair o gyngor: Gallwch wneud y gweithgaredd yma gyda neu heb raff sgipio. I gyfrifo'r cymedrig (cyfartalog), adiwch y rhifau a rhannu'r ateb gyda nifer y bobl.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrifo'r cymedrig fel cyfartalog.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Grawnfwyd brecwast



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae bocs o rawnfwyd brecwast yn cynnwys y cynhwysion yn y siart cylch.

Mae 25% cyfartal o bob cynhwysyn.

Allwch chi ddylunio eich cymysgedd eich hun o gynhwysion gyda gwahanol ganrannau?



Pa ganran o bob cynhwysyn fyddwch chi'n ei ddewis?

Faint o gynhwysion fydd gennych chi?

Allwch chi greu siart cylch i ddangos eich grawnfwyd newydd?

A fyddai eich teulu i gyd yn dewis yr un peth?

Gair o gyngor: Ceisiwch annog amrywiaeth o ganrannau, gyda rhai o'r cynhwysion yn feintiau bach. Siaradwch am wahaniaethau a chymharu siartiau cylch. Cofiwch fod yn rhaid i'r siart adio i 100%.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Dehongli a chreu siartiau cylch i ddatrys problemau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Bisgedi Eid



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mae Eid al-Fitr yn wyliau crefyddol Islamaidd pwysig ar draws y byd gan nodi diwedd Ramadan, y mis ymprydio sanctaidd i Fwslemiaid.

I ddathlu, gallech wneud y bisgedi hyn:

Cynhwysion

- 250g menyn meddal
- 140g siwgr caster
- 300g blawd plaen
- 1 melynwy
- 2 llond llwyd de rhin fanila

Prisiau'r cynhwysion yw:

- £2.00 am 500g o fenyn meddal
- 99c am 500g o siwgr caster
- 80c am 1.5kg o flawd plaen
- £1.25 am 6 wy
- £1.30 am botel 60ml o rin fanila

Dull

1. Cymysgu'r menyn a siwgr
2. Gogro'r blawd i'r cymysgedd
3. Adio 1 melynwy a'r fanila a chymysgu i wneud toes
4. Rholio yna gwneud siapiau seren neu gilgant gyda chyllell neu dorwyr pwrpasol
5. Pobi ar 160°C am 11 munud
6. Oeri a mwynhau.

Amcangyfrifwch faint fyddai'r bisgedi hyn yn ei gostio i'w gwneud. Bydd angen i chi gyfannu rhai rhifau.

Byddai'r rysâit yma'n gwneud tua 30 o fisgedi.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


Pe byddech eisiau cael parti i'ch teulu a ffrindiau,
faint o fisgedi fyddai ei angen arnoch?

Sut fyddech chi'n addasu'r rysâit?

Pe baech chi eisiau gwneud bedair gwaith
cymaint o'r rysâit i deulu mawr, faint fyddai'r
cynhwysion yn ei gostio?

Mae'r siop leol yn gwerthu'r un rysâit i deulu
mawr a byddai'n codi 30% yn fwy; beth fyddai'r
pris yn y siop?

Cyngor campus: Tua 5 ml sydd mewn llwy de.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau
sy'n gofyn cyfannu
atebion yn fanwl gywir
(yng nghyd-destun
arian i 2 le degol).

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Mae algebra'n hwyl



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mae algebra'n hwyl

$$A = 6 \quad I = 12 \quad F = 3$$

Ysgrifennwch gymaint o hafaliadau â phosib yn defnyddio AIF

Dyma rai i chi ddechrau arni:

$$A + I = 18 \quad 12 \div A = 2$$

$$7 \times S = 21 \quad I - 5 = 7$$

Ceisiwch wneud gwahanol hafaliadau'n defnyddio adio, tynnu, lluosu a rhannu.

Her: Defnyddiwch bob un o'r llythrennau AIF mewn un hafaliad. Er enghraifft:

$$A + I + F = 21$$

Ceisiwch wneud hafaliad mwy cymhleth gyda'r llythrennau hyn.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cynhyrchu a mynegi problemau rhif(au) coll mewn dull algebra; rhestru posibiliadau cyfuniadau o ddau newidyn.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Y gacen fwyaf erioed



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Roedd y gacen fwyaf erioed yn mesur 5,300m wrth 1m wrth 0.1m (Guinness Book of Records 2020).


Allwch chi ddychmygu faint o gynhwysion fyddai ei angen?

Mae'r gacen yn hirach na bws ysgol!

Mae rysâit ar gyfer cacen 20cm x 20cm x 10cm yn:

- 340g (12oz) o flawd codi
- 280g (10oz) o siwgr caster
- 280g (10oz) o fenyn / marjarîn
- 5 wy
- 3 llond llwy fwrdd o laeth

Allwch chi amcangyfrif beth fyddai'r rysâit yn edrych fel ar gyfer cacen fwa'r byd?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

NN National
Numeracy
Getting on with numbers

Rŵan defnyddiwch gyfrifiannell i'ch helpu i gyfrifo.

- Cofiwch drosi'r rysâit wreiddiol yn fetrau cyn dechrau
- Ar ôl cyfrifo faint yn fwy fydd y gacen fawr, cyfannwch hynny i'r rhif agosach i gyfrifo'r cynhwysion.

Gair o gyngor: Cyngor campus:

Talgrynnwch yr union fesuriadau i fyny neu i lawr;
cyfaint = **h** x **ll** x **u** (hyd x lled x uchder).



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Defnyddio a throsi rhwng unedau mesur hyd a chyfaint yn defnyddio nodiant degol; cyfrifo, amcangyfrif a chymharu cyfaint ciwboidau'n defnyddio unedau safonol, gan gynnwys cm³ a m³.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Pwysau eirth



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mae Elen Benfelen a'r Tair Arth yn stori draddodiadol gydag arth fach, arth ganolig ac arth fawr.

Dyfeisiwch bwysau i bob un o'r eirth a dod o hyd i'r cyfartalog.




Dowch o hyd i bwysau aelodau o'ch teulu a chyfrifo'r pwysau cyfartalog.

Ydych chi'n meddwl y byddwch o dan neu'n fwy na'r pwysau cyfartalog?

Oeddech chi'n gywir?

Ailadroddwch y gweithgaredd yn defnyddio taldra.

Gair o gyngor: Anogwch sgiliau amcangyfrif ar sail y mesuriad diwethaf, er enghraifft ydych chi'n meddwl y byddwch yn pwyso mwy neu lai na.... faint yn fwy / llai na, pa mor agos oeddech chi?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrifo cymedrig fel cyfartalog, datrys problemau'n defnyddio unedau mesur (màs) yn defnyddio nodiant degol, hyd at dri lle degol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Map trysor



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae Mari Môr-leidr a Mori Môr-leidr wedi dod o hyd i fap trysor ond mae rhai o'r cyfesurynnau wedi eu cymysgu. Allwch chi eu helpu drwy baru'r cyfesurynnau i'r darnau o drysor?




A	Bag o bres aur	(3, 4)
B	Cist o boteli rŷm	(6, -2) (9, -2), (9, -4), (6, -4)
C	Dagr	(8, -9)
D	Diemwntau	(-8, -5), (-7, -5), (-7, -9), (-8, -9)
E	Cleddyf	(-3, -2)
F	Penglog	(-8, 5)
G	Map i fwy o drysor!	(9, 9)

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Rŵan gofynnwch i bob
un o'ch teulu ddychmygu
darn o drysor y byddent
yn llawn cyffro'n dod o
hyd iddo - rhaid iddynt
roi'r cyfesurynnau i
chi i'w roi ar y map a'i
ychwanegu at y rhestr.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Disgrifio safleoedd ar
y grid cyfesurynnau
llawn (y 4 cwadrant).

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Mynd mewn cylchoedd



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dowch o hyd i ddarn o gortyn (neu gotwm neu wllân, ayyb) a thorri 50cm ohono. Dychmygwch ei fod wedi cyrlio'n siâp cylch – beth fyddai'n ffitio ynddo? A fyddai can o ffa'n sefyll y tu mewn?

Rŵan gnewch y cylch – oeddech chi wedi synnu gyda'r maint?


Allwch chi ddod o hyd i 3 peth gyda diamedr hirach na'ch cylch?

Allwch chi ddod o hyd i 3 pheth gyda radiws llai na'ch cylch?

Yn defnyddio'r cortyn, amcangyfrifwch ddiamedr olwyn eich car. Tynnwch lun ohono a labelu'r diamedr.

Allwch chi ddefnyddio eich cortyn i ddod o hyd i rywbeth gyda radiws yr un hyd neu debyg? Tynnwch ei lun a labelu'r radiws.

Gair o gyngor: Y diamedr yw'r mesuriad ar draws canol y cylch, a'r radiws yw hanner y diamedr (o'r canol at ymyl y cylch).



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Dangos ac enwi rhannau o gylchoedd gan gynnwys radiws, diamedr a chylchedd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Cartref breuddwyd

Rhan 1



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Pan fydd asiant tai'n gwerthu tŷ, mae fel arfer yn cynnwys mesuriadau pob ystafell. Mae hefyd yn rhoi cyfanswm arwynebedd llawr y tŷ.

Mesurwch bob ystafell yn eich tŷ i gyfrifo'r arwynebedd, yna adio'r cwbl i roi cyfanswm yr arwynebedd.


Her: Allwch chi dynnu llun cynllun llawr o'r tŷ gyda mesuriadau?

Gair o gyngor: Os nad oes gennych gyfarpar mesur, defnyddiwch gam oedolyn (tua 1m) ac amcangyfrif.

Os yw siapiau'r ystafelloedd yn afreolaidd, rhannwch nhw'n siapiau i gyfrifo'r arwynebedd.

Arwynebedd hirsgwar = hyd x lled

Arwynebedd triongl = gwaelod x uchder, wedyn rhannu gyda 2



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrifo a chymharu arwynebedd hirsgwariau (gan gynnwys sgwariau) a defnyddio unedau safonol cm^3 neu m^3 , amcangyfrif arwynebedd siapiau afreolaidd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Cartref breuddwyd

Rhan 2



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**


Yn Cartref Breuddwyd Rhan 1, roeddech wedi mesur arwynebedd pob ystafell yn eich cartref a'r cyfanswm.

Rŵan meddyliwch beth fyddai eich cartref breuddwyd yn edrych fel.

Penderfynwch ar gyfanswm yr arwynebedd, nifer yr ystafelloedd, pa ystafelloedd a pha mor fawr. Meddyliwch am ba onglau diddorol a siapiau ystafelloedd a allai ffitio i'ch cartref breuddwyd. Faint o loriau fydd ganddo?

Her: Allwch chi dynnu llun cynllun pob llawr ar gyfer y tŷ? (Nid oes angen iddo fod wrth raddfa ond dylech labelu'r dimensiynau). Beth yw cyfanswm yr arwynebedd?

Gair o gyngor: Os yw siapiau'r ystafelloedd yn afreolaidd, rhannwch nhw'n siapiau i gyfrifo'r arwynebedd.
Arwynebedd hirsgwar = hyd x lled
Arwynebedd triongl = gwaelod x uchder, wedyn rhannu gyda 2



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrifo a chymharu arwynebedd hirsgwariau (gan gynnwys sgwariau) a defnyddio unedau safonol cm^3 neu m^3 , amcangyfrif arwynebedd siapiau afreolaidd; tynnu llun siapiau 2D gyda dimensiynau ac onglau; adnabod lle y gellir defnyddio fformiwla i gyfrifo arwynebedd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Peli golff





**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mae diamedr pêl golff yn 4cm.

**Mae tad Sali eisiau gwneud bocs
fydd yn dal 6 o beli golff.**

Pa faint (hyd a lled) allai'r bocs hwn fod?
A oes mwy nag un ateb posib?

Gair o gyngor: Os mesurwn ar draws
canol y cylch, y diamedr ydy'r enw ar hwn.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Mesur a chyfrifo
perimedr siapiau
mewn centimetrau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


N National
Numeracy
Getting on with numbers

Beth sy'n digwydd?



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Edrychwch ar y graff llinell hwn. Beth allai fod yn ei gynrychioli?



Allwch chi labelu'r echelin x?

Beth allai'r rhifau 0 - 20 ar yr echelin y ei gynrychioli?

Allwch chi feddwl am stori y gallai'r graff llinell hwn ei chynrychioli?

Dylech lenwi'r wybodaeth ar yr echelin x i gyd-fynd â'ch stori.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Dehongli a chreu
graffiau llinell a
defnyddio'r rhain i
ddatrys problemau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Atebion i Weithgareddau Bl6



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Pos pyramid llusoi


4 gwahanol ffordd o drefnu digidol i roi pob un o'r cyfansymiau 96, 384, 864, 1526, 3456

Hafaliadau cytbwys o ffrwythau

- Afal = 300g
- 3 gellygen = 1 banana ac 1 gellygen = 300g
- 1 afal = 1 gellygen ac 1 banana = 300g
- 2 gellygen + 1 banana = 2 banana = 400g, $x = 1$ banana
- 2 afal = 2 banana + 1 gellygen + 1 gellygen = 600g, $x = 1$ gellygen
- 3 banana = 4 gellygen + 1 banana = 600g, $x = 1$ banana
- $\frac{1}{2}$ afal = $\frac{1}{2}$ gellygen + 1 gellygen = 150g, $x = 1$ gellygen
- 1 banana + $\frac{1}{2}$ banana = $\frac{1}{2}$ gellygen + $\frac{1}{2}$ afal + 1 gellygen = 300g, $x = 1$ gellygen

Cylchoedd jyglo

Un ateb yw:



Faint?

- Byrgyr = \$6.67
- Pitsa = 4.62 ewro
- Mefus = 3.43 ewro
- Tocynnau Disneyland = £299.24 am 5 diwrnod

Milltir o ffa pob

10,000 can = 1km felly 1 filltir =
 $10,000 \text{ can} \times 1.6 = 16,000 \text{ can}$

Ffrwydradau tân gwyllt

Roced £10 i lawr i £4 a sbarclys
£20 i lawr i £17



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Atebion i Weithgareddau Bl6



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Gemâu Olympaidd Dewiniaid

- 30 ras nofio, 12 ras ysgub, 15 gornest dewiniaid, 60 ras redeg, 3 brwydr dreigiau

Ewinedd hiraf y byd

- 35.2mm mewn blwyddyn
= 3.52cm y flwyddyn
- Byddai 5 ewin yn gyfanswm o 17.6cm
- 900cm wedi'i rannu gyda 17.6
= tua 51 mlynedd

Cynigion archfarchnad

- Mae'r cynnig fitaminau cyntaf am £3.60 yn prynu 270 o dabledi. Mae'r ail gynnig am £1.40 yn prynu 90 o dabledi; byddai prynu 270 o dabledi gyda'r cynnig hwn yn costio £4.20, felly'r cynnig cyntaf sydd orau.
- Drwy brynu un cael un am ddim, gallwch brynu dau dun am 59c; dwbl 59c = £1.18, sy'n rhatach na £1.20 am 4 tun.

Tatws pob

6 taten ac 20 taten

Anrhegion dan y goeden

Mae mwy nag un ateb posib.


Un ateb posib yw ciwb = £15, sffêr = £14, prism = £11, silindr = £7, ciwboid = £20

Bisgedi Eid

Costau: menyng £1, siwgr 27.72c (28c), blawd 16c, wy £0.208 (21c), fanila £0.216 (22c) = cyfanswm £1.87

Y gacen fwyaf erioed

10,531.84kg o flawd; 8,673.28kg o siwgr a menyng; 15,4880 o wyau; 92,928 llwyaid o laeth



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers